# 3

# Ar ôl Hyfforddiant neu Gwaith

# Ar ôl Hyfforddiant neu Gwaith

## Trosglwyddo o'r Rhaglen Gyflogadwyedd

Gall y trosglwyddiad o hyfforddiant fod yn gyfnod cyffrous ond pryderus hefyd. Gall fod yn gyfnod arbennig o ansicr i rai dysgwyr sy'n aml yn gweld newid yn anodd.  Mae tiwtoriaid, aseswyr, staff cefnogi dysgu a mentoriaid i'ch cefnogi gyda hyn.  Gallent eich cynorthwyo i:

- baratoi a chynllunio ar gyfer yr hyn yr hoffech ei wneud nesaf
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf i'ch helpu i wneud y dewis iawn.
- dewis y lleoliad gorau i chi, un ai coleg, prifysgol, gwaith neu hyfforddiant pellach, megis Prentisiaeth.

## Coleg neu Brifysgol

Os hoffech fynd i'r coleg neu Brifysgol, byddwch angen gwybod:

- sut i wneud cais
- sut le yw'r coleg neu brifysgol a'r cyrsiau sydd ar gael
- pa gymwysterau y byddwch eu hangen i gael mynediad at eich cwrs
- sut i drefnu ymweliadau i weld lle mae'r coleg neu brifysgol a sut le yw'r campws
- pwy fydd yn dod gyda chi ar yr ymweliad
- sut i fynd i'r coleg neu brifysgol a lle byddech yn aros tra byddwch yno
- beth mae gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn ei wneud
- beth yr ydych am ei wneud pan nad ydych mewn dosbarthiadau neu ddarlithoedd
- beth yr ydych am ei wneud os na fyddwch yn derbyn y graddau iawn ar gyfer eich dewis cyntaf o goleg neu brifysgol
- beth yr ydych am ei wneud os yw pethau'n dechrau mynd o chwith unwaith yr ydych yn y coleg neu brifysgol.

## Cyflogaeth

Os nad ydych yn gweithio ar hyn o bryd, ac eisiau cael swydd, byddwch angen gwybod:

- ble i gael gwybodaeth am wasanaethau cyngor ar waith e.e. gyrfaoedd,
- sut i gael cymorth gyda chyfweliadau ffug, cwblhau ffurflenni cais ayyb.
- am Wasanaethau Cefnogaeth gyda Chyflogaeth
- pa swyddi allwch chi eu gwneud gyda'ch cymwysterau?  Neu a oes angen i chi gyflawni cymwysterau eraill i allu gwneud y swydd yr hoffech ei wneud?
- mae ystod o adnoddau ar gael ar https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=8918&setLanguage=4 a all fod o gymorth i chi.

## Dechrau Prentisiaeth

Gallwch gyflawni hyfforddiant pellach neu ddechrau prentisiaeth ac mae pobl i’ch cynorthwyo gyda:

- gwybodaeth ar wasanaethau cyngor ar hyfforddi e.e. gyrfaoedd, cynghorwyr dysgu wedi’u lleoli yn y gwaith
- sut i gael cymorth gyda chyfweliadau ffug, cwblhau ffurflenni cais ayyb.
- am Wasanaethau Cefnogaeth gyda Chyflogaeth
- pa swyddi allwch chi eu gwneud gyda’ch cymwysterau? Neu a oes angen i chi gyflawni cymwysterau eraill i allu gwneud y swydd yr hoffech ei wneud?
- mae ystod o adnoddau ar gael ar https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=8918&setLanguage=4 a all fod o gymorth i chi.

## Symud ymlaen i Brentisiaeth Uwch

Os ydych eisoes mewn gwaith ac wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen, gallwch ystyried cyfleoedd hyfforddi pellach. Gall y darparwr hyfforddiant eich cefnogi gyda hyn a'ch helpu i ystyried:

- parhau gyda’r pwnc galwedigaethol ar lefel uwch
- cwblhau cymhwyster rheoli neu arwain tîm
- os yw eich rôl bresennol yn cyfateb i'r cymhwyster yr ydych yn bwriadu ei gyflawni

Siaradwch â’ch Asesydd a Chyflogwr am y cyfleoedd sydd ar gael i chi gamu ymlaen yn eich gyrfa.

## Atodiad 3 – Rhestr Wirio Dysgwr

### Ar ôl Rhaglen Gyflogadwyedd wedi'i leoli yn y Ganolfan

**Pan fydd yr hyfforddiant yn dod i ben, bydd angen i chi ddechrau meddwl beth fydd yn digwydd wedyn. Mae rhai pobl yn mynd i swyddi neu brentisiaethau ac mae eraill yn mynd i'r Brifysgol.**

*Er mwyn ceisio penderfynu beth i'w wneud ar ôl hyfforddi, atebwch y cwestiynau canlynol;*

**Pa swydd yr hoffech ei wneud yn y dyfodol?**
*Atebwch yn y bocs*

*Rhowch gylch o amgylch eich ateb i'r cwestiwn*
**Ydych chi angen mwy o gymwysterau er mwyn cyflawni'r swydd honno? ..................................................** YDW neu NAC YDW

Os ydych, mae'n werth paratoi ar gyfer hyfforddiant pellach a/neu addysg uwch

**Pa gwrs neu brentisiaeth wag yr ydych angen gwneud cais amdano?**
*Atebwch yn y bocs*

*Rhowch gylch o amgylch eich ateb i'r cwestiwn*
**Os allwch gael y swydd yn syth ar ôl hyfforddi, ydych chi wedi ymgeisio am y swydd? ...........................................** YDW neu NAC YDW

**Pa gymorth yr ydych ei angen gan y darparwr hyfforddiant i gael swydd?**
*Atebwch yn y bocs*

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys popeth am ddysgu seiliedig ar waith, fodd bynnag, mae wedi cael ei ddylunio i'ch helpu i ddeall a chynllunio ar gyfer rhannau ohono. Os oes gennych unrhyw sylwadau, barn, syniadau a chynlluniau eraill, nodwch nhw yn y bocs canlynol;